

## 15. POLYCARP
## (stori o'r ail ganrif)

Yr oedd yr Esgob Polycarp o Smyrna yn ymwybodol ers tro byd fod ei fywyd mewn perygl, ac yn wir i chi, un dydd cyrhaeddodd mintai enfawr o blismyn i'w arestio. Y peth cyntaf a wnaeth yr hen ŵr oedd holi a hoffent damaid o swper wedi eu siwrnai hir.

Syfrdanwyd y Swyddog Arestio gan y fath groeso. Yr oedd wedi clywed straeon erchyll am Gristnogion – hanesion amdanynt yn bwyta babanod ac yn yfed eu gwaed. Daethai yno'n disgwyl cyfarfod troseddwr peryglus, nid hen ŵr diniwed yr olwg.

Yr oedd mewn tipyn o benbleth am weddill y noson, yn enwedig pan ofynnodd Polycarp iddo a gâi weddïo am awr cyn ymadael. Roedd yr holl dawelwch yn fygythiol. Ni chawsai erioed garcharor mor dawel o'r blaen. O'r diwedd penderfynodd ganiatáu awr ychwanegol i'r hen ŵr gwblhau ei weddïau (yn ôl pob golwg roedd gan Gristnogion gant ac un o frodyr a chwiorydd i weddïo trostynt!) Yna cafodd afael ar asyn gan na allai'r hen ŵr fyth ymdopi â'r siwrnai ar droed. Ar ôl gweddi derfynol gan Polycarp a chwpanaid o win i bawb arall, i ffwrdd â hwy liw nos.

Roedd hi ar fin gwawrio pan gyfarfu Herod, pennaeth yr heddlu, â hwy ar gyrion y ddinas. Syfrdanwyd yntau hefyd pan welodd garcharor mor ddiniwed yr olwg. Galwodd ar Polycarp.

'Tyrd yma at fy ngherbyd i mi gael rhoi gair o gyngor i ti,' meddai. Er

ei fod yn casáu Cristnogion nid oedd am weld y creadur diniwed hwn yn cael ei roddi i farwolaeth – yn enwedig pan oedd ffordd mor hawdd o osgoi hynny. Roedd yr Ymerawdwr wedi datgan na ddylid dienyddio Cristnogion heb yn gyntaf roi cyfle iddynt wadu eu ffydd. I ennill ei ryddid y cwbl roedd angen i Polycarp ei wneud oedd dweud 'Cesar yw'r Arglwydd' a chyflwyno aberth i'r duwiau Rhufeinig.

'Mae'n ddigon hawdd, wyddost ti,' meddai gan ddodi ei law ar ysgwydd esgyrnog Polycarp i'w annog. 'Dim ond i ti ailadrodd tri gair bach a thaflu'r pinsiaid lleiaf o thus ar yr allor, bydd pob dim yn iawn! Beth sydd gennyt i'w ddweud?' Ni atebodd Polycarp. Gan feddwl nad oedd wedi ei ddeall ailadroddodd Herod y cwbl unwaith eto. Y tro hwn syllodd y carcharor i fyw ei lygaid. Gyda llais crynedig ond clir dywedodd,

'Dwi ddim am dderbyn dy gyngor.'

'Fel y mynnot. Dy ddewis di yw e,' wfftiodd Herod. Roedd yn ŵr prysur ac eisoes wedi gwastraffu digon o amser ar y carcharor. 'Ewch â'r hen ffŵl gwirion i'r amffitheatr!' gorchmynnodd.

Adeilad hirgrwn anferth yng nghanol y ddinas oedd yr amffitheatr. Yno, daethpwyd â Polycarp gerbron Quartus y llywodraethwr.

Wedi un cipolwg ar yr hen ŵr, penderfynodd yntau, fel yr heddlu a phennaeth yr heddlu o'i flaen, wneud ei orau i achub ei groen.

'Os byddi di'n gall fydd dim rhaid i ti ofni dim,' eglurodd. 'Ac rwy'n siŵr dy fod di ... rwyt ti'n edrych fel pe bai angen tipyn o heddwch arnat ti erbyn hyn.' Yna gofynnodd i Polycarp ailadrodd brawddeg fer.

'Ymaith â phob anffyddiwr!' fel arwydd o'i anghymeradwyaeth o Gristnogion!

Trodd Polycarp gan fwrw cipolwg o amgylch yr amffitheatr gorlawn ac aeth ias i lawr ei gefn wrth weld cynifer o wynebau gelyniaethus. Efallai'n wir fod y Llywodraethwr yn ystyried Cristnogion yn anffyddwyr am wrthod plygu glin i dduwiau Rhufeinig ond, i Polycarp, anffyddwyr oedd pobl na chredai mewn un gwir Dduw. Edrychodd i fyny tua'r nef ac yna trodd ei olygon yn ôl at y dorf anniddig a dywedodd,

'Ymaith â phob anffyddiwr!'

'Da iawn!' gwaeddodd Quartus, gan gymryd hyn fel arwydd fod y carcharor yn barod i fod yn rhesymol. 'Mae un peth arall cyn i ti fynd,' meddai yn bur siŵr ohono'i hun, 'Y cwbl sydd rhaid i ti wneud nawr yw melltithio Crist.'

Gwnaeth i'r cyfan swnio mor rhwydd fel petai melltithio Crist mor hawdd â dweud 'bore da' wrth rywun. Ond diflannodd y wên pan atebodd y carcharor yn wylaidd,

'Am wyth deg chwech o flynyddoedd bûm yn was i Grist ac ni wnaeth unrhyw niwed i mi erioed. Sut allaf fi siarad yn gableddus yn erbyn fy Mrenin a'm Gwaredwr?'

Roedd Quartus yn gwybod eisoes ei fod yn hen; wedi'r cyfan, dyna pam yr ymdrechodd pawb mor galed i'w arbed – ond wyth deg chwech o flynyddoedd! Ysgydwodd ei ben. Wyddai o ddim beth mwy i'w wneud. Os mynnai'r hen ŵr wynebu marwolaeth yna nid oedd dim y gellid ei wneud i'w rwystro.

Galwodd ar y cennad: 'Dywed wrth y dorf fod Polycarp wedi cyffesu ei fod yn Gristion.'

Aeth y newydd trwy'r dorf fel tân gwyllt. *Roedd Polycarp wedi cyffesu ei fod yn Gristion*. Aeth y dorf yn gandryll.

'Lladdwch yr un sy'n dinistrio'n duwiau!' bloeddiasant.

'Gadewch i'r anifeiliaid gwyllt ei larpio!'

'Na, fe losgwn ef yn y fflamau!'

O fewn munudau roedd y dorf wedi rhuthro o'r ymrysonfa i gasglu coed tân.

Yn dawel, paratôdd Polycarp ei hun gan wybod mai ef fyddai'r merthyr hynaf i farw dros Grist. Tynnodd ei sandalau, heb ddangos unrhyw ofn, a chaniatáu iddynt ei glymu wrth y stanc.

Roedd ei farwolaeth yn fuddugoliaethus ac yn uchafbwynt i wyth deg chwech o flynyddoedd yn dilyn Crist.

Ac fe dyfodd yr Eglwys Gristnogol mewn nerth oherwydd ei ffydd.

**HYD:** 4–5 munud

**NEGES:** Gall Crist ein nerthu i fod yn dystion ffyddlon hyd yn oed trwy erledigaeth.

**DARLLEN:** Mathew 10: 17–31

**GWYBODAETH YCHWANEGOL:**

Bu cyfnodau o erlid Cristnogion yn ystod y tair canrif gyntaf hyd nes y gorfodwyd yr Ymerawdwr Galerius i arwyddo Gorchymyn Goddefgarwch ar ei wely angau yn 311 OC ac i Cystennin a Licinus arwyddo Gorchymyn Milan yn 313 OC. Ganed Sant Polycarp oddeutu 69 OC a bu farw oddeutu 155 OC. Ef oedd Esgob Groegaidd Smyrna (Twrci Fodern) ac roedd yn ddisgybl personol i'r Efengylydd Ioan.